

Cynnwys

Rhaglen	2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	5
5 - Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac Archwiliad perthnasol	11
Atodiad 1 - Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad	13
Atodiad 2 - Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru	48
7 - Trefniadau Llywodraethu GwE	62
8 - Alinio Trefniadau Gweithio Rhanbarthol gyda Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru	69
9 - Defnydd o'r Tanwariant 2013-14	73



GwE



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cyfarfod / Meeting

CYD-BWYLLGOR GwE
GwE JOINT-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

2.00 pm DYDD LLUN, 29 MEDI 2014
2.00 pm MONDAY, 29 SEPTEMBER 2014

Lleoliad / Location

VENUE CYMRU
LLANDUDNO

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN
(01341) 424301

GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

AELODAETH Y CYDBWYLLGOR/MEMBERSHIP OF THE JOINT COMMITTEE

Aelodau â phleidlais/ Voting Members

Cynghorydd/Councillor Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Cynghorydd/Councillor Gareth Thomas – Cyngor Gwynedd Council
Cynghorydd/Councillor Wyn Ellis Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Cynghorydd/Councillor Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych/ Denbighshire County Council
Cynghorydd/Councillor Chris Bithell – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
Cynghorydd/Councillor Michael Williams – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais/Co-opted Non-voting Members

Esgobaeth Llanelwy/St Asaph Diocese – Rosalind Williams
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd/Primary Schools Representative – sedd wag / vacant seat
Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd/ Secondary Schools Representative – Annwen Morgan
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig/Special Schools Representative – Jonathan Morgan
Cynrychiolydd Llywodraethwr/Governor Representative – Alison Fisher

Swyddogion heb Bleidlais/Non-voting Officers

Dr Gwynne Jones – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
Owen Owens – Cyngor Gwynedd Council
Richard E. Owen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
Karen Evans – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council
Ian Budd – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council
John Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Swyddogion yn bresennol/Officers in attendance

Iwan Evans a Dafydd Edwards – Awdurdod Lletyol/Host Authority
Geraint Rees – Llywodraeth Cymru/Welsh Government
Huw Foster Evans – Prif Swyddog GwE/GwE Chief Officer
Susan Owen Jones – Rheolwr Busnes a Chyllid GwE/GwE Business & Finance Manager
Mohammed Mehmet – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 9/7/14 (copi'n amgaeedig)

5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL (copi'n amgaeedig)

6. ADRODDIAD CYNNYDD GwE

7. TREFNIADAU LLYWODRAETHU GwE (copi'n amgaeedig)

8. ALINIO TREFNIADAU GWEITHIO RHANBARTHOL GYDA MODEL CENEDLAETHOL LLYWODRAETH CYMRU (copi'n amgaeedig)

9. DEFNYDD O'R TANWARIANT 2013/14 (copi'n amgaeedig)

CYD-BWYLLGOR GwE
09.07.14

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr Chris Bithell, Eryl Williams, Ieuan Williams, Michael Williams, Siân Gwenllian (Eilydd), D. Miles (Eilydd).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Mrs Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Ms Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwr)

Swyddogion Heb bleidlais: Mr John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Mr Dewi R Jones (Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Ynys Môn), Mr Geraint James (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Ian Budd (Cyngor Sir y Fflint)

Hefyd yn Bresennol: Mr Geraint Rees (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Mrs Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE) Mr Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Mr Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Mr Huw Foster Evans (Prif Swyddog GwE), Mr Elfyn Vaughan Jones (Prif Swyddog Gweithredol GwE), Mr Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Eryl Williams yn Gadeirydd i'r cyd-bwyllgor am y flwyddyn 2014/15.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Michael Williams yn Is-gadeirydd i'r cyd-bwyllgor am y flwyddyn 2014/15.

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol

4. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 30 Ebrill 2014 fel rhai cywir.

4.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 4 (vi) – Adolygiad Cwricwlwm Addysgol Cyfnod Sylfaen

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag amserlen adolygiad o'r cwricwlwm addysgol y Cyfnod Sylfaen i'r Uwchradd gan Yr Athro Graham Donaldson, adroddodd Mr Geraint Rees y bydd y Gweinidog Dros Addysg a Sgiliau yn adrodd yn y Flwyddyn Newydd a bod modd cyflwyno sylwadau iddo pe dymunir gwneud hynny. Ychwanegwyd y byddai gofynion asesiadau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cael sylw fel rhan o'r adolygiad.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

5. **CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014**

- (a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn amlinellu sefyllfa "alldro" ar y cyfrifon Incwm a Gwariant Refeniw 2013/14 ynghyd â datganiad o'r cyfrifon, ar ffurf statudol, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad.
- (b) Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at ddadansoddiad o'r gwariant a'r prif wahaniaethau gan dynnu i sylw bod £776,662 o danwariant erbyn hyn ac y byddai modd neilltuo £706,000 ar gyfer comisiynu er mwyn cyflawni'r cynllun busnes, y model cenedlaethol, a gofynion ysgolion yn 2014/15 a thu hwnt.
- (c) Mewn ymateb i ymholiadau gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Pennaeth Cyllid bod sawl rheswm am y tanwariant ar yr elfen cyflogau sef:
 - Graddfeydd cyflog y swyddi o fewn GwE wedi eu gosod yn is na'r hyn oedd wedi eu gosod o fewn yr achos busnes llawn
 - pan osodwyd y gyllideb bod cyflogau'r swyddi wedi eu pennu ar uchafswm y graddfa gyda rhai penodiadau wedi bod yn is
 - Bod rhai penodiadau wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn
 - Symudwyd ymlaen yn raddol i gael Arweinyddion Sustem mewn lle
- (ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:
 - (i) Pryder ynglyn â'r tanwariant o gofio yr hinsawdd ariannol a wynebwr gan lywodraeth leol ac a fyddir yn gallu ei glustnodi ar gyfer comisiynu
 - (ii) Bydd arbedion i'w gwneud i'r dyfodol ac y byddai'n ofynnol cynyddu capasiti GwE o safbwynt y Model Cenedlaethol
 - (iii) Tra'n derbyn bod tanwariant, nodwyd bwysigrwydd i gynnal trafodaethau tryloyw er mwyn i'r Cyfarwyddwyr Addysg fedru adrodd yn ol i'w hawdurdodau o gofio eu cyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdodau ar Gyd-bwyllgor GwE. Ychwanegwyd bod angen deall y gyllideb broceriaeth a recriwtio ac os oes unrhyw rwystrau o ran recriwtio fel bo modd i'r Cyfarwyddwyr fedru helpu.

- (iv) Pwysleiswyd yr angen i'r Cyfarwyddwyr Addysg fedru trafod a rhannu unrhyw bryderon gyda Swyddogion Cyllid Statudol yr awdurdodau er mwyn medru diogelu'r gwasanaeth i'r dyfodol.
 - (v) Y byddai'n fanteisiol derbyn gwybodaeth ynglyn â lefel capasiti GwE ynghyd â phroffil oedran y gweithlu er sicrhau cydbwysedd a llenwi'r bylchau
 - (vi) Bod angen i Swyddogion Cyllid Statudol y 6 Awdurdod drafod y pryderon ynglyn â'r tanwariant
- (d) Mewn ymateb i'r pryderon uchod, nodwyd fel a ganlyn:
- Bod lefel y gyllideb gyfredol yn rhan o'r gytundeb gwreiddiol ac wedi ei bennu i GwE am dair blynedd. Yn rheolaethol, rhaid chwilio am arbedion parhaol, ond yn yr achos uchod arbediad un-tro sydd yma
 - Bod angen cynyddu capasiti GwE yn barhaol yn hytrach na chynnig secondiadau. Yn ystod y trafodaethau cychwynnol o'r achos busnes penderfynwyd bryd hynny bod angen 30 Arweinydd System i weithio dros y Rhanbarth gyda 3 ohonynt yn Uwch Arweinwyr System ond ni chymerwyd ystyriaeth y byddai ganddynt amserlenni cynhwysfawr.
 - Tybir bod diffyg capasiti yn ganolog i ddatblygu rhaglenni ar gyfer gwella perfformiad ar lawr y dosbarth ac felly rhaid edrych ar beth sydd angen a bod GwE yn gallu gweithredu ar ran yr awdurdodau i ymateb i'r gofynion
 - Bod lefel y gyllideb gyfredol yn rhan o'r gytundeb gwreiddiol ac wedi ei bennu i GwE am dair blynedd. Yn rheolaethol, rhaid chwilio am arbedion parhaol, ond yn yr achos uchod arbediad un-tro sydd yma.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad gan gymeradwyo'r cyfrifon a gwariant refeniw 2013/14 fel amlinellir yn atodiad A ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifol 2013/14 (cyn-archwiliad) – Atodiad B.

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

- (a) Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.
- (b) Adroddodd y Pennaeth Cyllid bod y datganiad yn cynnwys llawer o egwyddorion gan gynnwys effeithiolrwydd, atebolrwydd, rheoli perfformiad ynghyd ag anghenion defnyddiwr a chwynion.

Penderfynwyd: Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bu i'r Cadeirydd a Chyfarwyddwr Addysg Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam ardystio'r datganiad yn y cyfarfod.

7. ADRODDIAD CYNNYDD AR DDATBLYGIADAU GwE

- (a) Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd gan Mr Elfyn Vaughan Jones, sydd wedi camu i swydd Mr Huw Foster Evans, Prif Swyddog GwE, dros dro fel Prif Swyddog Gweithredol hyd nes fydd Mr Evans yn dychwelyd i'w swydd yn dilyn gwaeledd. Roedd y Cyd-bwyllgor yn ddiolchgar o'r trefniant a chymerwyd y cyfle hefyd i ddiolch i Mr Geraint Rees, Llywodraeth Cymru, am ei gefnogaeth ychwanegol a'i barodrwydd i gynorthwyo yn ystod y mis diwethaf.
- (b) Tywysodd Mr John Davies yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan gyfeirio at
- Apwyntiadau a wnaed yn y misoedd diwethaf
 - Penodiadau a secondiadau dros dro er mwyn rhyddhau swyddogion i ymgymryd â'r gwaith datblygol
 - Rhaglen waith yr Arweinyddion System
 - Adborth a dderbyniwyd gan yr ysgolion i ymweliadau tymhorol
 - Diweddariad ar Lythrennedd a Rhifedd – bu GwE yn gyfrifol am fonitro gweinyddiad a'r broses o farcio'r profion Darllen a Rhif Cenedlaethol ac fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor o berfformiad ysgolion y rhanbarth
 - Prosiect PISA – fel rhanbarth gwahoddir ysgolion i arwain mewn un neu fwy o 4 pwnc penodol (Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth)
 - Her Cymru – bod ymgynghorwyr wedi eu penodi i gydweithio gyda 5 ysgol. Hysbysebwyd am secondiad i fod yn gyfrifol am gydgyrdio'r gwaith i sicrhau cysondeb ac ansawdd.
 - Strwythur GwE – bod y strwythur yn cyfeirio at swydd ychwanegol parhaol sef Pennaeth Safonau ar gyfer cynyddu cynhwysedd o fewn yr Uwch Dim Rheoli ac ar sail rhanbarthol
- (c) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd y bydd y system categoreiddio ysgolion yn gweithredu ochr yn ochr â'r model bandio.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ar ddatblygiadau cyfredol GwE, gan ddiolch i Mr Elfyn Vaughan Jones am ddarparu'r adroddiad.

(b) Cymeradwyo:

- (i) **Bod y Prif Swyddog yn parhau i weithio hefo'r Cyfarwyddwyr Addysg yn y 6 awdurdod i weithredu gofynion Cynllun Busnes y Model Cenedlaethol ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor ar y datblygiadau;**
- (ii) **I addasu teitl Prif Swyddog GwE i Reolwr Gyfarwyddwr GwE (yn unol â'r Model Cenedlaethol a chonsortia rhanbarthol eraill yng Nghymru);**
- (iii) **Mewn egwyddor, ychwanegu swydd Pennaeth Safonau at strwythur craidd y gwasanaeth a chydabod yr angen i gynyddu chynhwysedd, dros dro, nes gwneir y penodiad.**

8. CYLLIDEB GwE 2014/15 – ADOLYGIAD CHWARTER 1

- (a) Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Brif Swyddog GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn amlinellu sefyllfa gychwynnol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2014/15.
- (b) Adroddodd y Pennaeth Cyllid ar sail sefyllfa derfynol 2013/14 amcangyfrifir tanwariant net o £230,000 eleni. Ymhelaethodd ar fanylion yr amrywiadau ariannol mwyaf sylweddol sef costau gweithwyr, ymrwymadau pensiwn, trefn broceriaeth a reserfau.
- (c) Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau:
- Awgrymwyd i'r Pennaethiaid Cyllid ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Addysg gwrdd i drafod y gyllideb er mwyn sicrhau eglurder ynglyn â gweledigaeth GwE ynghyd â chynllun busnes yn dilyn y cyfnod 3 blynedd. Croesawir adroddiad i'r Cyd-bwyllgor yn yr Hydref.
 - Pryder y byddir yn colli'r arian tanwariant ac y dylid sicrhau cynllun busnes cadarn er mwyn diogelu'r gyllideb
 - Pwysigrwyd bod Aelodau Etholedig yn derbyn eglurhad o unrhyw danwariant a'r angen i nodi cynlluniau i'r dyfodol o pa wasanaethau a gomisiynir ac unrhyw rwystrau a wynebier fel nad oes llithriad yn y gyllideb

Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo ymrwymo unrhyw danwariant ar gyfer comisiynu er mwyn cyflawni'r cynllun busnes, y model cenedlaethol, a gofynion ysgolion 2014/15 a thu hwnt.

(b) Gofyn i Brif Swyddog GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd gyflwyno adroddiad dilynol i'r Cyd-bwyllgor am gamau arfaethedig i greu capasiti uwch reolaethol (ag amser digyswllt) o fewn GwE drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd sydd o fewn y gyllideb, heb ofyn am gyfraniadau ychwanegol gan y 6 Cyngor, yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol gyfredol lle gall yr awdurdodau wynebu toriadau grant digysail erbyn 2015/16.

9. Y MODEL CENEDLAETHOL

- (a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, ymateb y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynllun busnes consortiwm GwE yn unol â'r model cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol ynghyd ag ymateb GwE i'r materion ychwanegol a godwyd fel rhan o adborth Llywodraeth Cymru i'r cynllun busnes.
- (b) Yn deillio o'r model cenedlaethol, amlygodd Mr Geraint Rees, Llywodraeth Cymru, y pwyntiau isod:
- Bod GwE yn gorff gwahanol ac yn fwy o faint na ragdybiwyd ac y byddir yn trafod yn y misoedd nesaf o safbwynt diffiniad rôl y Cyfarwyddwyr Addysg a swyddogion GwE
 - Angen trafodaeth ynglyn â threfniadau lletya GwE o safbwynt swyddfeydd
 - Bydd Rheolwr Prosiect yn arwain a chyflwyno adroddiad yn yr Hydref ar elfen o waith adnoddau dynol

- Bod ESTYN a Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cynnal arolwg thematig i edrych ar ystod o faterion megis rôl craffu a pha mor effeithiol y cyflawnir hyn
- O safbwynt materion yn ymwneud ag ysgolion ac yn benodol Ymgynghorwyr Her – nodwyd bwysigrwydd i'r rhanbarth gytuno ar y penodiadau
- Rhaglen datblygu ysgol-i-ysgol – (bod angen model i'w flaenoriaethu ac efallai y byddai modd ei gyllido o'r tanwariant)
- Her Ysgolion Cymru – nodwyd bod bid wedi ei gyflwyno am y swm o £1m i gefnogi ysgolion

(c) Mewn ymateb i'r uchod, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau:

- O fewn y model genedlaethol bod disgwyliad i sefydlu Bwrdd Gweithredol fydd yn atebol i Gyd-bwyllgor GwE. Deallir bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi derbyn barn gyfreithiol yn herio'r penderfyniad.
- O fewn y gytundeb rhwng GwE a'r awdurdodau lleol, bod disgwyl i GwE ddarparu adroddiad i bob un o'r 6 awdurdod a'i fod yn bwysig i ystyried pa fath o wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad fel bo awdurdodau'n craffu'n effeithiol

10. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Busnes a Chyllid yn amlinellu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor i'w cytuno a'u cymeradwyo ar gyfer 2014/15.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

(b)Cymeradwyo'r dyddiadau canlynol:

DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
29 Medi 2014	Pnawn	Conwy
6 Tachwedd 2014	Pnawn	Conwy
25 Chwefror 2015	Bore	Conwy
11 Mehefin 2015	Bore	Conwy

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 a.m. a daeth i ben am 3.15 p.m.

CADEIRYDD

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	29 Medi 2014
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru; • Llythyr Cynrychiolaeth.
ARGYMHELLIAD	Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 9 Gorffennaf 2014 o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.2 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.3 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'lletyol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant, a lle mae'r trosiant yn fwy na £1m, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.5 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan Swyddfa Archwilio Cymru.

2. CYFRIFON 2013/14

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 i'r cyfarfod 9 Gorffennaf 2014 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro" syml, ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14 (cyn archwiliad).

3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

4. CYFRIFON TERFYNOL 2013/14

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14. Mae'r mân newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2013/14 (ôl-archwiliad)

6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.

7. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Flint,
Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2013/14

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.gov.uk

MYNEGAI

	Tudalen
Rhagymadrodd Eglurhaol	2 - 4
Datganiad Cyfrifoldebau	5
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	6
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	7
Y Fantolen	8
Datganiad Llif Arian	9
Nodiadau i'r Cyfrifon	10 – 26
Adroddiad yr Archwilwyr	27 – 28
Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	29 - 34

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

Rhagarweiniad

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, ac hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2013/14 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 6 i 26. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2013/14*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddeler gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwech Cyngor isod fel a ganlyn am 2013/14 :

Conwy	15.64%
Dinbych	15.09%
Fflint	22.48%
Gwynedd	18.04%
Ynys Môn	10.13%
Wrecsam	18.63%

- **Y Fantolen** - Sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2014.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2013/14 at ddbenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon. Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 10.

Gwariant Refeniw yn 2013/14

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 7 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel Cost Gwasanaethau yn £3,903k yn ystod 2013/14, gyda'r sefyllfa net yn (£680k). Wrth wydroi'r addasiadau technegol, fel sy'n ofynnol yn y Côt, trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau gwelir mai (£777k) yw'r gwir gynnydd net.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2013/14 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf 2014. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddio'r tanwariant o £777k i reserf penodol.

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 6 a 7 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Weithgareddau	3,520	3,806	286
Incwm			
Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd:			
Conwy	(551)	(551)	0
Dinbych	(531)	(531)	0
Fflint	(791)	(791)	0
Gwynedd	(635)	(635)	0
Ynys Môn	(356)	(356)	0
Wrecsam	(656)	(656)	0
Incwm ariannu costau sefydlu unwaith ac am byth (cyfraniadau gan y 6 cyngor)	-	(853)	(853)
Incwm Arall	-	(210)	(210)
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(777)	(777)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad	*Addasiad Trawsddodiad	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000
Gwariant	3,806	97	3,903
Incwm	(4,583)	0	(4,583)
Cost Gwasanaethau Net	(777)	97	(680)

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig .

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 10.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Caren Rees Jones
Uned Cyfrifeg Canolog, Adran Cyllid
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yw'r Pennaeth Cyllid.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

29 Medi 2014

Y Cyngorydd Eryl Williams
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

18 Medi 2014

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor £'000
Balans Agoriadol 1 Ebrill 2013		0	0	0	4,097	4,097
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2013/14</u>						
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(495)	0	(495)	0	(495)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	(1,104)	(1,104)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(495)	0	(495)	(1,104)	(1,599)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(282)	0	(282)	282	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(777)	0	(777)	(822)	(1,599)
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	777	(777)	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2013/14		0	(777)	(777)	(822)	(1,599)
Balans 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen		0	(777)	(777)	3,275	2,498

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2013/14

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2012/13			Nodyn	2013/14		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
0	0	0		2,264	0	2,264
0	0	0		31	0	31
0	0	0		98	0	98
0	0	0		370	0	370
0	0	0	20	853	(853)	0
0	0	0		287	0	287
0	0	0		0	(3,730)	(3,730)
0	0	0		3,903	(4,583)	(680)
0	0	0		0	0	0
0	0	0	10	185	0	185
0	0	0		0	0	0
0	0	0		4,088	(4,583)	(495)
		0	22			(1,104)
		0				(1,104)
		0				(1,599)

* Costau ac incwm unwaith ac am byth sefydlu GwE.

Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2014

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau/(ymrwymadau) net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddeler gan y Cyd-Bwyllgor.

1 Ebrill 2013 £'000		<i>Nodyn</i>	31 Mawrth 2014 £'000
0	Asedau Tymor Hir		0
0	Dyledwyr Tymor Byr	11	1,041
0	Arian a Chywerthydd Arian		126
0	Asedau Cyfredol		1,167
0	Credydwyr Tymor Byr	12	(440)
0	Ymrwymadau Cyfredol		(440)
(4,097)	Ymrwymiad Pensiwn	22	(3,225)
(4,097)	Ymrwymadau Tymor Hir		(3,225)
(4,097)	Asedau/(Ymrwymadau) Net		(2,498)
0	Reserfau Defnyddiadwy	13	(777)
4,097	Reserfau na ellir eu defnyddio	14	3,275
4,097	Cyfanswm Reserfau		2,498

DATGANIAD LLIF ARIAN – 2013/14

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

2012/13 £'000	Nodyn	2013/14 £'000
0 (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(495)
0 Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwy'r, dyledwy'r a pensiwn</i>)	15	369
0 Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu		0
0 Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(126)
0 Gweithgareddau Buddsoddi		0
0 Gweithgareddau Ariannu		0
0 (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		(126)
0 Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		0
0 Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(126)

*Sefyllfa Llif Arian yn unol â Pholisi Cyfrifo 1.3

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2013/14 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2014. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2013/14*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na phryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

I.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff y Cyd-Bwyllgor ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnlf o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor asedau dibynnol.

I.5 Ymrwymïadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyd-Bwyllgor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan bod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymïadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronïad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y cronïad yn mynd yn erbyn Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, y llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensïynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion pensiynau ychwanegol terfynu a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensïynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar rhan Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymïadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymïadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymïadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwariad drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn

seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydranau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu
- Cost llog net ar y buddion net diffiniedig (asedau), h.y. y gost llog net i'r awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu y gyfradd ddisgownt sy'n cael ei defnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad buddion diffiniedig net (asedau) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun – gan eithrio symiau sy'n gynwysiedig yn llog net ar yr ymrwymiad budd diffiniedig net (asedau) – yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, golygir hyn bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau blwyddyn blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blyneddoddi i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad blwyddyn blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronriadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.10 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.11 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2013/14. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannu ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

1.12 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.13 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.14 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

1.15 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys cyd-bwyllgorau) yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

1.16 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Oherwydd mai dyma flwyddyn gyntaf y Cyd-Bwyllgor mae pob polisi cyfrifo yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2013/14.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15 wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiau cyfrifeg a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2014. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

SAARh 10 – Datganiadau Ariannol Cyfunol (Mai 2011)

Mae'r newid yma'n y polisi cyfrifo wedi cyflwyno diffiniad newydd o reolaeth, a ddefnyddir i bennu pa endidau sy'n gyfunol i bwrpas cyfrifon grwp.

SAARh 11 – Trefniadau ar y Cyd (Mai 2011)

Mae'r newid yma'n y polisi cyfrifo yn berthnasol i gyfrifo trefniadau ar y cyd, sydd yn drefniant cytundebol a gyd-reolir gan ddau neu fwy o bartion. Dosberthir rhain unai fel menter ar y cyd neu fel gweithred ar y cyd. Nid yw cyfuniad gymesur bellach yn opsiwn i endidau a gyd-reolir.

SAARh 12 – Datgeliad Diddordeb gydag Endidau Eraill (Mai 2011)

Mae'r newid yma yn gofyn am nifer o ddatgeliadau'n ymwneud â diddordeb endid mewn is-gwmnïau, trefniadau ar y cyd, cymdeithasau ac endidau strwythuredig anghyfunol.

SAARh 27 – Datganiadau Ariannol ar wahan ac IAS 28 - Separate Financial Statements and IAS 28 – Buddsoddiadau mewn Cymdeithasau a Threfniadau ar y Cyd (diwygiedig Mai 2011)

Mae'r datganiadau yma wedi eu diwygio o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12 (uchod). O ystyried na fyddai newid i'r datganiadau ariannol, oni bai datgeliad, o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12, nid oes ychwaith effaith o ganlyniad i newidiadau yn IAS 27 ac IAS 28.

IAS 32 – Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad (diwygiedig Rhagfyr 2011)

Mae'r safon hwn yn cyflwyno newidiadau i'r cyflwyniad o'r offerynnau ariannol ac yn caniatáu gosod asedau ariannol yn erbyn ymrwymïadau ariannol.

Mae'n anhebygol y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon GwE.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth i'w gario yr asedau ac ymrwymïadau, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, y ffactorau eraill hynny yn dybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a dyfodol ac sy'n cael eu hystyried yn berthnasol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymïadau dibynnol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r canlyniadau a amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2014 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actwari'r Cyngor. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 21 a 22.

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

(Nad ydynt wedi eu datgelu ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)

Nid oes eitemau materol o incwm a gwariant nad ydynt wedi eu datgelu ar wyneb y Datganiad incwm a Gwariant.

NODYN 7 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau gwybyddus wedi dyddiad y fantolen.

NODYN 8 – ADDASIADU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2013/14

**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL
ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU**

	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Cyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22)	(886)	886
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	654	(654)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(50)	50
Cyfanswm Addasiadau	(282)	282

NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

Reserfau a Glustnodwyd

	Reserfau Cydbwyllgor GwE
	£'000
Balans 1 Ebrill 2013	0
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Rhwng Cronfeydd	0
Mewn	777
Allan	0
Balans 31 Mawrth 2014	777

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2012/13		2013/14
£'000		£'000
0	Llog net ar y buddion diffiniedig net ymrwymadau (asedau)	185
0	Cyfanswm	185

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	1 Ebrill 2013 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Cyrff Llywodraeth Ganolog	0	2
Awdurdodau Lleol Eraill	0	1,022
Endidau Eraill ac Unigolion	0	17
Cyfanswm	0	1,041

NODYN 12 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	1 Ebrill 2013 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
Cyrff Llywodraeth Ganolog	0	46
Awdurdodau Lleol Eraill	0	277
Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus	0	6
Endidau Eraill ac Unigolion	0	111
Cyfanswm	0	440

NODYN 13 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 14 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

1 Ebrill 2013 £'000	31 Mawrth 2014 £'000
(4,097) Reserf Pensiynau	(3,225)
0 Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(50)
(4,097) Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(3,275)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi ei hennill cael eu ariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y

gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Bensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2012/13 £000	2013/14 £000
0 Balans 1 Ebrill	(4,097)
0 Ailfesuriad o'r buddion diffiniedig net ymrwymadau / (asedau)	1,104
0 Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(886)
0 Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	654
0 Balans 31 Mawrth	(3,225)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliu blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2012/13 £000	2013/14 £000
0 Balans 1 Ebrill	0
0 Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(50)
0 Balans 31 Mawrth	(50)

NODYN 15 – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2012/13 £'000	2013/14 £'000
0 (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(440)
0 Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyd	1,041
0 Ymrwymiad Pensiwn	(232)
0	369

NODYN 16 – TALIADAU I SWYDDOGION

a. Mae 7A (1) (b) o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Newidiad) 2010, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda cyflog o rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy ac hefyd gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion Cyd-bwyllgor:

2012/13				Uwch Swyddogion	2013/14			
Cyfraniadau		Costau			Cyfraniadau		Costau	
Pensiwn		Eraill			Pensiwn		Eraill	
Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£	£		£	£	£	£
0	0	0	0	Prif Swyddog ¹	34,749	11,363	72,170	118,282
0	0	0	0	Prif Swyddog ²	48,648	15,908	0	64,556

¹ Yn gyflogedig yn y swydd hyd at 31 Awst 2013

² Yn gyflogedig yn y swydd o 1 Medi 2013

b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ag eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 3 achos yn 2013/14. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:		
Nifer yn 2012/13		Nifer yn 2013/14
Cyfanswm		Cyfanswm
0	£60,000 - 64,999	1
0	£65,000 - 69,999	1
0	£70,000 - 74,999	0
0	£75,000 - 79,999	0
0	£80,000 - 84,999	0
0	£85,000 - 89,999	0
0	£90,000 - 94,999	1

NODYN 17 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2012/13	2013/14
£'000	£'000
0 Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol	6

NODYN 18 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£2,031	£0	£0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr .

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel a ddiffinir) y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£0	£0	£0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Uwch Swyddogion.

NODYN 19 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion. Mae'r holl becynnau a restrir yn ymwneud â swyddogion a drosglwyddwyd drosodd i GwE ac fe'u harianwyd yn gyfangwbl gan yr awdurdodau gwreiddiol (gweler Nodyn 20).

(a)	(b)		(c)		(d)		(e)	
Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band	
£	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14	2012/13	2013/14
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£'000	£'000
0 - 20,000	0	4	0	0	0	4	0	56
20,001 - 40,000	0	6	0	0	0	6	0	158
40,001 - 60,000	0	6	0	0	0	6	0	273
60,001 - 80,000	0	3	0	0	0	3	0	199
80,001 - 100,000	0	1	0	0	0	1	0	95
100,001 - 150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	20	0	0	0	20	0	781

NODYN 20 – EITEM EITHRIADOL

Mae'r eitem eithriadol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2013/14) yn nodi'r costau sefydlu unwaith ac am byth y Cyd-Bwyllgor GwE. Y prif elfen yw costau'r pecynnau terfynu gwaith, fel a nodir yn Nodyn 19, a ariennir gan gyfraniadau o'r awdurdodau gwreiddiol.

NODYN 21 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiwnadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2013/14 talodd y Cyd-Bwyllgor £2k am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 14.10% o dâl pensiwnadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2013/14. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig ac fe'u cynhwysir yn Nodyn 22.

NODYN 22 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl cyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion a ddiffinnir a phensiwn cyflog terfynol, sy'n golygu bod yr Awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio ymrwymadau'r gronfa gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Er hynny, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff y polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion ar ôl Cyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net		Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2014		
	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau) /asedau net	
	£'000	£'000	£'000	
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	9,806	0	9,806	
Gwerth Presennol Ymrwymadau wedi eu hariannu		(13,903)	(13,903)	
Gwerth Presennol Ymrwymadau heb eu hariannu		0	0	
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	9,806	(13,903)	(4,097)	
Cost Gwasanaeth				
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(414)	(414)	
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(287)	(287)	
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(701)	(701)	
Llog Net				
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	447	0	447	
Cost Llog ar Buddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(632)	(632)	
Cyfanswm Llog Net	447	(632)	(185)	
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	447	(1,333)	(886)	
Llif Arian				
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	109	(109)	0	
Cyfraniadau y Cyflogwr	645	0	645	
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	
Buddion Dalwyd	(406)	406	0	
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	10,601	(14,939)	(4,338)	
Ail Fesuriadau				
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	0	0	
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	(420)	(420)	
Profiad Arall	0	1,154	1,154	
Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a chynhwysir mewn llog net	379	0	379	
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	379	734	1,113	
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	10,980	0	10,980	
Gwerth Presennol Ymrwymadau wedi eu hariannu	0	(14,205)	(14,205)	
Gwerth Presennol Ymrwymadau heb eu hariannu	0	0	0	
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2014	10,980	(14,205)	(3,225)	

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheini nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfrannedd â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,305,000,000 ar 31 Mawrth 2014, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	Ar 1 Ebrill 2013				Ar 31 Mawrth 2014			
	Prisau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau heb eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau heb eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	117	0	117	1	206	0	206	2
Ynni a Gwasanaethau	297	0	297	3	263	0	263	2
Sefydliadau Ariannol	165	0	165	2	92	0	92	1
Iechyd a Gofal	494	0	494	5	487	0	487	4
Technoleg Gwybodaeth	154	0	154	2	306	0	306	3
Eraill	472	0	472	5	501	0	501	5
Ecwiti Breifat								
Y cyfan	0	483	483	5	0	525	525	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	841	841	9	0	945	945	9
Eiddo Tramor	0	30	30	0	0	28	28	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac								
Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	218	3,018	3,236	33	2,463	3,217	5,680	52
Bondiau	1,979	1,296	3,275	33	0	1,632	1,632	15
Is-adeiladwaith	0	0	0	0	0	48	48	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	25	25	0	0	0	0	0
Arian a								
Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	217	0	217	2	268	0	268	2
Cyfanswm	4,113	5,693	9,806	100	4,586	6,395	10,981	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymadau

Mae'r ymrwymadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cynllun Pensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari fel a ganlyn:-

31 Mawrth 2014	
Tybiaethau Ariannol	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.8
Cyfradd Codiad Cyflogau	4.6*
Cyfradd Chwyddiant	2.8
Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymadau'r Cynllun	4.3
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwyllir ar yr holl asedau	4.3
Nifer a ddisgwyllir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blyneddol i lwmp swm ymddeol	
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blyneddol
Hyd oes pensiynwyr cyfredol am 65 oed	
Dynion	22.0
Merched	24.0
Hyd oes pensiynwyr y dyfodol am 65 oed	
Dynion	24.4
Merched	26.6

*Tybir bod cynnydd mewn cyflogau yn 1% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2016 gan ddychwelyd i'r dybiaeth tymor hir a ddangosir wedi hynny.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2014 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigurau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013, dyddiad y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun

Newid tybiaeth	Cynnydd bras i'r Cyflogwr	Swm ariannol bras
	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2014
	%	£'000
lleihad 0.5% i'r gwir cyfradd disgownt	16	2,205
cynnydd flwyddyn i'r disgwyliad oes	3	426
cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog	3	464
cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad pensiwn	12	1,725

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2013), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2017 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, cyfeiriwch at adroddiad actiwaraidd 2013, dyddiedig 31 Mawrth 2014.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad		Parhad
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	9,950	70.1	22.6
Aelodau Gohiriedig	302	2.1	33.7
Aelodau Pensiynwyr	3,953	27.8	14.7
Cyfanswm	14,205	100.0	20.6

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys ymrwymïadau wedi eu hariannu ac nid ydynt yn cynnwys ymrwymïadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar y prisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2013.

Effaith mewn Blynnyddoedd Dyfodol

Bydd adroddiadau IAS19 yn y dyfodol yn cynnwys effaith y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun o dan y Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau 2013 a'r newid o fuddion cyflog terfynol i fuddion cyfartaledd gyrfa adbrisiedig ar gyfer gwasanaeth o 1af Ebrill 2014 ymlaen.

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £458,000 yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2015.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £8,523 yn 2013/14 rhwng ffigurau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari i gymharu gyda'r Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Chollledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymïadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigurau Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyd-bwyllgor GwE

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyd-bwyllgor GwE

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-bwyllgor GwE a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig ac er mwyn canfod unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu ei bod yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor GwE

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2014 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Medi 2014

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd GwE yn Gydbwyllgor gan 6 awdurdod lleol gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cydbwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro; herio; darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi GwE i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

3.1 Aelodaeth

Mae'r Awdurdodau wedi dod i gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau Cysylltiedig.

Mae aelodaeth y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys 1 aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd â hawl i bleidleisio.

Mae Prif Swyddog Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau sy'n swyddogion, heb hawl i pleidleisio

Mae 1 cynrychiolydd o'r Esgobaeth, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, 1 cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac 1 Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais.

3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cyngorau wedi arwyddo Cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau bob un mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-Bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith lywodraethu GwE.

3.3 Egwyddorion

Trwy arwyddo'r Cytundeb, mae'r Cyngorau wedi cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da canlynol:-

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

Mewn perthynas â'r Cytundeb bydd y Cyngorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio'n llwyddiannus;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

Bydd y Cyngorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael a heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

Mae'r Cyngorau'n cydnabod bod pob un yn dod a sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cyngorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;

- Perthnasau Effeithiol

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

Mae'r Cyngorau'n cydnabod eu bod ynghlwm a beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

Mae'r Cyngorau'n cytuno, mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â

gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cyngorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cyngorau eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; a

- Ymrwymïadau Aelodau a Swyddogion

Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cyngorau eraill.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae GwE yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-Bwyllgor. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côt Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Cyd-Bwyllgor hefyd.

Gan mai 2013/14 oedd blwyddyn gyntaf GwE mewn bodolaeth, cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd ei system o lywodraethu gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Rhoddwyd sylw i'r canlyniad adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol yr awdurdod lletyol. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol yn bennaf, mae'r asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu fel a ganlyn:

Amcanion

Mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth, dyddiedig Mawrth 2012, gyda'r achos busnes yn dangos tystiolaeth bod amcanion clir wedi eu sefydlu a'u bod yn SMART a bod rhaglen waith priodol mewn lle.

Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyd-Bwyllgor wedi ei sefydlu, gydag aelodaeth briodol.

Gwelwyd bod strwythur trefniadaethol clir ar gyfer y Gwasanaeth, ond yn dilyn derbyn y model cenedlaethol newydd bydd newidiadau i'r strwythur yn y dyfodol oherwydd bod newidiadau mewn disgwyliadau ar ran y Gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau, ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-Bwyllgor a'u hawlio pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi cael eu nodi yn y Cytundeb.

Arweinyddiaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 20/02/2013
- 08/07/2013
- 06/11/2013

Fodd bynnag, bu ymdrech i gynnal cyfarfod ar 12/03/2014 ond nid oedd cworwm gan fod angen pum aelod â hawl pleidleisio o'r Cyd-Bwyllgor ac nid oedd pump ar gael.

Rheolaeth Risg

Mae gan GwE gofrestr risg sydd wedi cael ei ddiweddarau yn Rhagfyr 2013. Mae perthnasedd y gofrestr risg yn cael ei gadw dan adolygiad.

Atebolrwydd

Mewn asesiad annibynnol, roedd Archwilio Mewnol yn fodlon fod:

- Y cytundeb wedi ei harwyddo gan swyddogion priodol yn yr 6 Awdurdod.
- Y cytundeb yn rhagnodi'r gwasanaeth yn fanwl.
- Cymalau priodol yn bodoli yn y cytundeb yn cyfeirio at faterion llywodraethu allweddol fel a ganlyn:
 - Dyletswyddau'r Cyngor Lletya a'r Cyngorau Eraill
 - Gwneud Penderfyniadau
 - Cyd-Bwyllgor
 - Ymrwymiad y Cyngorau a Chyfraniadau
 - Ymrwymiad Y Cyngor Lletya a'r Cyngorau Eraill
 - Cychwyn, Hyd a Therfynu
 - Tynnu'n ôl
 - Tanberfformiad gan y Gwasanaeth.

Systemau Rheoli Perfformiad

Yn unol â'r cytundeb, bydd Prif Swyddog y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cydbwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth.

Yn unol â'r cytundeb, darperir adroddiad y Prif Swyddog i bob Cyngor ddim hwyrach na 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn, ond penderfynwyd yn Hydref 2013 nad oedd y Gwasanaeth wedi bod yn rhedeg digon hir i fedru adrodd ar y perfformiad ac felly bwriedir adrodd nesaf i'r Cyngorau cyn 31/10/2014.

Roedd Archwilio Mewnol o'r farn bod deiliannau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer monitro perfformiad y Gwasanaeth.

Anghenion Defnyddiwr a Chwynion

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn gwyno Cyngor Gwynedd. Hyd yma ni dderbyniwyd cwynion.

Yn ogystal, mae'n bosibl i'r ysgolion rhoi adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r Cydbwyllgor yn ogystal â'u herio. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd a chynradd y 6 Awdurdod yn perthyn i'r grŵp defnyddwyr.

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo'r hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cydbwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Bydd y grŵp yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn.
- Mae'r grŵp yn cynnwys:
 - 6 cynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
 - 6 cynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
 - 1 cynrychiolwyr Ysgolion Arbennig
 - Llywodraethwyr Ysgol - 1 cynrychiolydd fesul Cyngor.

Polisiâu Corfforaethol

Ar ddyddiad y fantolen, roedd y polisiâu corfforaethol yn y broses o gael eu hadolygu gan Adnoddau Dynol, GwE a'r Undebau gydag ychydig o ffordd i fynd hyd nes y bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau.

Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan GwE, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw GwE o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

Rhan 6: BARN

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.



Swyddog Arweiniol GwE

Dyddiad : 9/7/14

JOHN DAVIES
PENNAETH DYSGU GYDOL OES
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
WRECSAM



Cadeirydd GwE

Dyddiad: 9-7-2014

CYNGHORYDD ERYL WILLIAMS
CYNGOR SIR DDINBYCH

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyd Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2013-14

Cyhoeddwyd: Medi 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 558A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyd Bwyllgor GwE fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Derwyn Owen, Amanda Hughes, Alan Hughes ac Andrew Smith.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	6

Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyd Bwyllgor GwE	10
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyd Bwyllgor GwE atynt	12

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyd Bwyllgor GwE yw £39,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, er mwyn eu hystyried, y materion hynny sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd Bwyllgor GwE, ar gyfer 2013-14, y mae angen cyflwyno adroddiad amynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ar 30 Mehefin 2014 sef y terfyn amser y cytunwyd arno, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, y Pennaeth Cyllid.

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. **Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

11. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn [Atodiad 3](#).

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

12. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

Mae gennym ddau bryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol

13. Un o ofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yw bod trafodion partïon cysylltiedig yn cael eu datgelu yng nghyfrifon y Cydbwyllgor. Er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol, gofynnodd Cyngor Gwynedd i'r Cynghorau perthnasol ddarparu manylion buddiannau partïon cysylltiedig. Ni ddarparodd Cyngor Sir Ynys Môn y manylion hyn tan ddiwedd y ffenestr archwilio ac, felly, paratowyd y cyfrifon drafft heb y wybodaeth hon. Yn y dyfodol mae'n rhaid iddo sicrhau y caiff y wybodaeth ei darparu yn amserol.
14. Er i'r Cyngor ddarparu papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol, nid oedd y broses o gysoni'r rhai o'r prif ddatganiadau a'r nodiadau â'r cofnodion ariannol sylfaenol yn un syml. Byddem yn argymhell y dylid darparu trywydd archwilio clir mewn blynyddoedd i ddod.

Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

15. Nid oes unrhyw faterion eraill i'w hysbysu i chi. Yn arbennig:
- Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
 - Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
 - Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
 - Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes.

-
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

16. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
17. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyd Bwyllgor GwE sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

29 Medi 2014

Annwyl Mr Barrett,

SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2013/14

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

SYLWADAU RHEOLWYR

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

-
- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
 - canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
 - ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyd-Bwyllgor GwE ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
 - ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
 - manylion yr holl bartïon cysylltiedig a holl gydberthnasau a thrafodion y partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

SYLWADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

SYLWADAU GAN GYD-BWYLLGOR GwE

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 29 Medi 2014.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID
CYNGOR GWYNEDD

CYNGHORYDD ERYL WILLIAMS
CADEIRYDD CYD-BWYLLGOR GwE

Dyddiad ...29 Medi 2014

Dyddiad29 Medi 2014

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyd Bwyllgor GwE

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyd Bwyllgor GwE

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyd Bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd Bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd Bwyllgor GwE a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig ac er mwyn canfod unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu ei bod yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd Bwyllgor GwE

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2014 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Medi 2014

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyd Bwyllgor GwE atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£78,000	Nodyn 12 – Ailddosbarthu credydwy'r byrdymor o endidau eraill (-£78,000) i lywodraeth ganolog (+£46,000) ac awdurdodau lleol (+£32,000).	Er mwyn sicrhau y caiff credydwy'r byrdymor eu datgelu'n gywir ar ddyddiad y fantolen.
£2,031	Datgeliad ychwanegol yn ymwneud â aelod o Gyngor Sir Ynys Môn	I ddatgelu yn llawn yr holl bartïon cysylltiedig
Naratif	Nifer fach o fân ddiwygiadau i gywiro gwallau teipio ac ati.	Er mwyn gwella ansawdd y cyfrifon.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	29 Medi 2014
TEITL	Trefniadau Llywodraethu GwE
PWRPAS	Argymhell trefniadau llywodraethu arfaethedig GwE ac ystyried sefydlu Bwrdd Ymgynghorol, i ymateb i'r Ddogfen Ganllawiau Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol
ARGYMHELLIAD	Bod y Cyd-Bwyllgor yn cadarnhau cymeradwyo'r strwythur llywodraethu arfaethedig, ac yn cymeradwyo sefydlu Bwrdd Ymgynghorol i GwE, yn unol â Model Cenedlaethol Gwasanaethau Gwella Ysgolion a'r cyngor cyfreithiol a gafwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
AWDUR	Iwan G D Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd

Cyflwyniad

1. Y ddogfen ganllawiau – cyhoeddwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014. Yng Ngwanwyn 2014, penderfynodd Cabinet y 6 Cyngor partner i:

- Gymeradwyo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yng Nghymru mewn perthynas â Gwella Ysgolion.
- Mabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ar Wella Ysgolion a datblygu cynllun busnes gyda'r bwriad o gynnwys y gwasanaethau ychwanegol a restrir yn y Model, yn y model rhanbarthol ar gyfer GwE, yn raddol, yn dibynnu ar gael achos busnes boddhaol i bob un, a chynllun pontio ategol i sicrhau parhad a pherfformiad y gwasanaeth.

Strwythur Llywodraethu Cyfredol

2. Sefydlwyd GwE yn wreiddiol ar batrwm awdurdod lletyol, cyd-bwyllgor. Ffurfiwyd aelodaeth y Cyd-Bwyllgor o blith Aelodau Cabinet a Phrif Swyddogion Addysg, ac aelodaeth gyfetholedig o blith grwpiau defnyddwyr ymgynghorol (Atodiad A). Dyma gylch gorchwyl y Cyd-Bwyllgor:
 1. hyrwyddo cydweithio i gyflenwi'r Gwasanaeth drwy:
 - hwyluso gweithio partneriaethol adeiladol;
 - cysylltu â chyrff allweddol sydd â diddordeb a rhanddeiliaid pan fo hynny'n briodol; a
 - cyflawni gweithgareddau eraill tebyg sydd wedi'u cynllunio neu'n arwain at gyflenwi'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
 2. goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Cynghorau, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynlluniau Busnes Blyneddol a Chomisiynu cytûn.
 3. cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
 4. cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
 5. monitro a rheoli'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
 6. cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid ychwanegol gan Gynghorau unigol;
 7. cymeradwyo strwythur staffio y Gwasanaeth;
 8. penodi Prif Swyddog i'r Gwasanaeth;
 9. penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; ac, ble mae angen, pennu neu wneud trefniadau ar gyfer pennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

Y Model Cenedlaethol

4. Mae'r Model Cenedlaethol (Atodiad B) yn darparu ar gyfer Cyd-Bwyllgor ble gall ei aelodau gynnwys naill ai Arweinwyr neu Ddeiliaid Portffolio Addysg yr awdurdodau partner, sy'n cael eu cefnogi gan y Prif Weithredwr Arweiniol. Mae'r canllawiau yn nodi y disgwylir i gyfrifoldebau'r Cyd-Bwyllgor gynnwys:
 - cymeradwyo cyllideb y consortia, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol,
 - cynllunio busnes
 - rheoli perfformiad.

Rhagwelir hefyd mai dim ond unwaith pob tymor ysgol y mae angen i'r Cyd-Bwyllgor gyfarfod, gydag o leiaf un cyfarfod yn canolbwyntio ar gynllunio busnes a gosod cyllideb. Dylai'r Cyd-Bwyllgor hefyd sefydlu trefniadau i benodi uwch staff a delio gyda materion AD megis cwynion.

5. Mae ail gymal y model llywodraethu arfaethedig a nodir yn y Canllawiau yn darparu ar gyfer creu Bwrdd Gweithredol. Roedd y Canllawiau wedi rhagweld dirprwyo prosesau gwneud penderfyniadau gweithredol y consortiwm i fwrdd gweithredol, gyda'r Bwrdd yn "goruchwylio, cefnogi a herio gwaith y consortiwm rhanbarthol".

Roedd y Canllawiau yn rhagweld y byddai'r Bwrdd Gweithredol yn:

- strategaeth - herio, mewn ffordd adeiladol, ddatblygiad strategaeth ac yn cyfrannu ati;
 - cynllunio busnes - ystyried ac yn argymhell cynllun busnes blynyddol i'r cyd-bwyllgor;
 - cyllideb - sicrhau bod y cynllun busnes y cytunwyd arni yn cydymffurfio â'r gyllideb;
 - perfformiad - monitro ac yn adolygu perfformiad rheolwyr;
 - hunanwerthuso a risg - bydd angen i aelodau'r bwrdd gweithredol sicrhau bod rheolaethau ariannol a systemau'r consortia rhanbarthol yn gadarn a, lle bo angen, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r awdurdodau lleol unigol;
 - pobl - argymhell y lefelau priodol o dâl ar gyfer y rheolwr gyfarwyddwr a'r uwch-dîm a chwarae rôl flaenllaw wrth benodi/diswyddo'r rheolwr gyfarwyddwr.
6. Mae'r Canllawiau yn rhagweld y bydd y Bwrdd Gweithredol yn is-bwyllgor ffurfiol o'r Cyd-Bwyllgor. Awgryma y dylai'r aelodau gynnwys:
- un cynrychiolydd o'r cyd-bwyllgor
 - enwebai o Lywodraeth Cymru (statws sylwedydd);
 - cyfarwyddwr addysg arweiniol;
 - Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - dim mwy na [phump] unigolyn a fydd yn cael eu penodi, gyda chymeradwyaeth y cyd-bwyllgor, am eu harbenigedd mewn addysg, arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol a fydd yn cael eu dewis o bwl o unigolion cymeradwy wedi'i dynnu ynghyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru. Bydd y sawl a enwebir yn cynnwys o leiaf un pennaeth sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysgol yn ardal y consortiwm.
7. Yn sgil cyhoeddi'r Canllawiau, gofynnwyd am gyngor cyfreithiol drwy CLILC ar faterion llywodraethu a chyfansoddiadol yn ymwneud yn benodol â'r model llywodraethu arfaethedig a statws y Bwrdd Gweithredol fel Is-Bwyllgor gyda phwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig. Roedd y cyngor yn codi materion penodol am fodel arfaethedig y Bwrdd Gweithredol. Roedd y rhain yn benodol yn ymwneud â'r ymagwedd gyffredinol at lywodraethu, hawliau pleidleisio a chyfranogiad swyddogion mewn is-bwyllgorau.
8. Mae'r Canllawiau yn nodi mai'r awdurdodau lleol fydd yn parhau i ysgwyddo'r atebolrwydd statudol am berfformiad ysgolion ynghyd â'r cyfrifoldeb am arfer pwerau statudol yng nghyswllt ymyrryd a threfniadaeth ysgolion. O ran y Cyd-Bwyllgor, mae'n pwysleisio na ddylai'r trefniadau llywodraethu a sefydlir ganddynt danseilio'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol ac nad yw ffurf yr oruchwyliaeth mor bwysig â'r gallu a'r awydd i ddarparu gwell deilliannau.

Model Arfaethedig

9. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda swyddogion arweiniol a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru, mae'r model drafft arfaethedig (Atodiad C) yn rhagweld strwythur llywodraethu sy'n adlewyrchu agweddau allweddol ar y Model Rhanbarthol ond sydd hefyd yn darparu strwythur sy'n mynd i'r afael ag ystyriaethau llywodraethu sy'n deillio o'r cyngor. Cynnig amlinellol ydyw ar hyn o bryd, sy'n ceisio adnabod y strwythur a'r rôl a ragwelir ar gyfer y grwpiau perthnasol a'r Cyd-bwyllgor.
10. O ran y Cyd-bwyllgor, dylai'r aelodaeth ddilyn y Model yn yr ystyr y dylai'r aelodaeth gynnwys Deiliaid Portffolio Addysg. Mae cylch gorchwyl presennol y Cyd-bwyllgor yn cyd-fynd yn fras â'r Model ac awgrymir bod hyn yn parhau yn sail i unrhyw gynllun dirprwyo diwygiedig.
11. Mae'r Model yn cynnig sefydlu grŵp cynghori sy'n seiliedig ar gysyniad y Bwrdd Gweithredol. Byddai gan y grŵp hwn hawliau cynghori ac adrodd sy'n cyfateb i swyddogaeth y swyddogaethau a amlinellir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer y Bwrdd. Byddai'r cyfansoddiad diwygiedig yn adnabod sut ac ymhle y byddai'r Grŵp hwn yn ymwneud yn ffurfiol â rheoli GwE, yn ogystal â'i hawl i adrodd yn uniongyrchol i'r Cyd-bwyllgor ar faterion oddi mewn i'w gylch gorchwyl.
12. Adnabwyd hefyd bod ar Rheolwr Gyfarwyddwr GwE angen mynediad i gorff gwneud penderfyniadau sydd ar lefel llai strategol na'r Cyd-bwyllgor, a all ddarparu penderfyniadau mewn perthynas â materion gweithredol ar lefel uwch ac awdurdodi newidiadau i'r gyllideb neu'r cynllun busnes ar lefel is. Byddai'r 6 Prif Swyddog Addysg yn ymwneud â'r grŵp hwn a byddai ganddo bwerau dirprwyedig penodol.

Materion i'w Hystyried

13. Mae rhai cwestiynau sydd angen eu hystyried ymhellach:
 1. Cynllun dirprwyo manwl
 2. Aelodaeth y Bwrdd Cynghori
 3. Cynnwys llais y defnyddwyr yn y strwythur


Cyffredinol

14. Roedd anawsterau o ganlyniad i ofynion y Cyd-bwyllgor am gworwm uchel. Fel rhan o adolygu'r Cyd-bwyllgor, awgrymir mabwysiadu Rheolau Sefydlog Gwynedd a fyddai'n golygu, yn achos y Cyd-bwyllgor, bod rhaid i dri aelod â phleidlais fod yn bresennol i ffurfio cworwm.


Dogfennau cefndirol


Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol - Canllawiau
Llywodraeth Cymru 2014

Atodiad A - GwE - Model Presennol



Atodiad B – Model Cenedlaethol





CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	29 Medi 2014
TEITL	Alinio Trefniadau Gweithio Rhanbarthol gyda Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
DIBEN	Adroddiad Cynnydd ar Alinio Trefniadau Gweithio Rhanbarthol gyda Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru
ARGYMHELLIAD	Dylai'r Cydbwyllgor nodi cynnydd a datblygiad yr achosion busnes manwl ar gyfer ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol a nodir yn y Model Cenedlaethol yn GwE
AWDUR	Elliw Alwyn, Rheolwr Prosiect, Consortiwm Addysg Gogledd Cymru

1. Cyd-destun

Cyhoeddwyd dogfen ganllaw y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014. Yng ngwanwyn 2014, penderfynodd Cabinetau'r chwe Chyngor partner i:

- gymeradwyo'r Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio Rhanbarthol yng Nghymru yng nghyswllt Gwella Ysgolion
- mabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol ar Wella Ysgolion a datblygu cynllun busnes gyda'r bwriad o ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol a nodir yn y Model ym model rhanbarthol GwE, mewn camau, yn ddibynnol ar achos busnes boddhaol ar gyfer bob un ynghyd â chynllun trawsnewid er mwyn sicrhau parhad a pherfformiad y gwasanaeth.

2. Cynnydd Prosiect Alinio

- Penodwyd Rheolwr Prosiect ym mis Awst 2014 i ddarparu achosion busnes manwl ar gyfer ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol a nodir yn y Model yng nghynllun Rhanbarthol GwE.
- Dechreuodd y Rheolwr Prosiect yn y swydd am ddau ddiwrnod yr wythnos hyd fis Hydref 2014 ac yna'n llawn amser wedi hynny hyd ddiwedd Mawrth 2015. Atgoffir y Cydbwyllgor bod angen ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol yn GwE erbyn 1 Ebrill 2015.
- Roedd yr agweddau ychwanegol o'r Model Cenedlaethol yr oedd angen eu hymgorffori yn GwE eisoes wedi cael eu mapio a'u nodi mewn cynllun busnes lefel uchel yn ystod Gwanwyn 2014.
- Mae'r Rheolwr Prosiect newydd bellach wrthi'n creu cynlluniau busnes manwl a fyddant yn sail i broses ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol yn GwE.
- Cyflwynodd y RhP adroddiad cynnydd gerbron Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg ar 10 Medi 2014 ble cymeradwywyd y cynllun lefel uchel a nodi bod y RhP wrthi'n dylunio rhaglen waith a chynlluniau busnes manwl gyda mewnbwn swyddogion perthnasol y chwe Awdurdod.

3. Camau'r Prosiect

- **Cam 1:** Adolygiadau o drefniadau cyfredol mis Medi 2014
- **Cam 2:** Dylunio modelau gwaith mis Hydref 2014
- **Cam 3:** Dechrau cymeradwyo'r model arfaethedig manwl Tachwedd 2014
- **Cam 4:** Dechrau gweithredu'r newidiadau Chwefror 2015
- Dylai'r Cydbwyllgor nodi mai dyma yw'r amserlen ddelfrydol ond bod posibilrwydd na fydd rhai elfennau mewn lle yn eu ffurf derfynol erbyn 1 Ebrill 2015. Bydd y RhP yn canolbwyntio ar agweddau y gellir eu gweithredu yn gymharol rhwydd er mwyn ceisio gweithredu erbyn 1 Ebrill 2015 a bydd yn darparu cyfiawnhad digonol i Lywodraeth Cymru os nad yw wedi llwyddo i gau pen y mhwdl ar rai o'r agweddau erbyn 1 Ebrill 2015.

4. O fewn Sgôp y Prosiect

Mae pedwar prif faes gwaith i'w cyfarch gan y RhP. Nodir hwy isod:

a) Cyngor a Chefnogaeth Llywodraethwyr

- Adolygu trefniadau cyfredol
- Gwerthuso opsiynau modelau posib
- Cymeradwyo a gweithredu'r model y cytunir arno

b) Trefniadau 14 – 19

- Adolygu trefniadau cyfredol
- Gwerthuso opsiynau modelau posib
- Cymeradwyo a gweithredu'r model y cytunir arno

c) Cyfnod Sylfaen

- Adolygu trefniadau cyfredol
- Gwerthuso opsiynau modelau posib
- Cymeradwyo a gweithredu'r model y cytunir arno

ch) Cynlluniau Strategol a Grant y Gymraeg mewn Addysg

- Adolygu trefniadau cyfredol
- Gwerthuso opsiynau modelau posib
- Cymeradwyo a gweithredu'r model y cytunir arno

5. Tu hwnt i Sgôp y Prosiect

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn y meysydd gwaith canlynol:

- Cefnogaeth AD effeithiol (mewn llaw gan yr Awdurdod Lletyol a'r Grŵp AD a gwaith cenedlaethol yn mynd rhagddo yng nghyswllt sgopio set sgiliau ac ati)
- System Gasglu Data Ranbarthol (mewn llaw gan Reolwr Gwybodaeth GwE)
- Bwrdd Gweithredol (mewn llaw gan John Davies a thîm cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol a GwE)
- Adnabod a phenodi Ymgynghorwyr Her addas o safon uchel a sicrhau bod pob Ymgynghorydd Her ac arweinydd ysgol yn deall nodweddion allweddol ac yn gallu hyrwyddo cydweithio effeithiol ysgol i ysgol (mewn llaw gan Uwch Dîm Rheoli GwE)
- Cryfhau tîm canolog GwE (mewn llaw gan Uwch Dîm Rheoli GwE)
- Goruchwyllo'r adnoddau sydd ar gael a gwariant yn effeithiol (mewn llaw gan Reolwr Busnes a Chyllid GwE)

Bydd y RhP yn ymgorffori'r agweddau hyn i mewn i'r rhaglen waith gyflawn ac yn gofyn am wybodaeth ynghylch cynnydd y gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cydfynd â'r amserlen allweddol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

29 MEDI 2014

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adroddiad ar y defnydd arfaethedig o danwariant cyllideb 2013/14

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y defnydd arfaethedig o'r tanwariant sy'n cario drosodd o gyllideb 2013/14.

2.0 Cefndir

2.1 Yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-Bwyllgor, adroddwyd bod tanwariant o £776,662 yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14.

2.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y defnydd arfaethedig o'r tanwariant.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Gwnaed cryn waith gan yr Uwch Dîm Rheoli i adnabod blaenoriaethau o ran datblygu'r gwasanaeth a sicrhau bod ysgolion yn elwa cymaint â phosibl.

3.2 Gweler isod crynodeb o'r gwariant arfaethedig (darperir rhagor o fanylion yn yr atodiadau).

Disgrifiad	Cost (amcan)	Cyfran o'r tanwariant (%)
Gweithgaredd marchnata a brandio (Atodiad A)	£35,000	4%
Cefnogaeth Ysgol i Ysgol (Atodiad B)	£490,300	63%
Profion PISA yn yr ysgol (Cytundeb cenedlaethol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Consortia)	£30,000	4%
Hyfforddiant Cenedlaethol – Ymgynghorwyr Her (Atodiad C)	£15,000	2%
Cynhadledd – Arddangos Rhagoriaeth	£21,000	3%

(Atodiad D)		
Creu swyddfa ranbarthol i GwE, adleoli 2 hwb ac adnoddau ychwanegol. (Atodiad E)	£80,000	10%
Cymorth ychwanegol - Data <i>Darn o waith i sicrhau bod gennym bas data hanesyddol o berfformiad, er mwyn creu dadansoddiadau mwy cyfoethog wrth dargedu adnoddau.</i>	£9,000.00	1%

4.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1 nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 cymeradwyo'r defnydd o'r tanwariant fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

4.3 cymeradwyo bod yr amrywiadau mewn gwariant a'r defnydd o'r gweddill yn cael eu cytuno gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Arweiniol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Dim effaith ar gyllideb 2014/15.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd ar gydraddoldeb yn codi o'r adroddiad.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Dim.

8.0 Ymgynghori

8.1 Cynhaliwyd trafodaethau cynnar efo Grŵp Strategol y Cyfarwyddwyr Addysg.

Atodiad A:

MAES	
Pecyn gweithgarwch yn ymwneud â'r we, brandio a hyrwyddo.	
RHESYMEG	
Wrth i GwE ddatblygu'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i ysgolion, mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth frandio a phresenoldeb amlwg a hwylus ar y we. Gwefan bwrpasol GwE i gynnwys: • Manylion sylfaenol am y gwasanaeth; • Papurau cyfarfodydd: ○ Rhai ar gael i'r cyhoedd; ○ Rhai wedi'u cyfyngu i ddefnyddwyr penodol; • Gallu rhannu gwybodaeth efo ysgolion; • Cyrsiau hyfforddiant/cynadleddau – gwybodaeth am y cyrsiau a'r opsiwn i gofrestru ar lein gan leihau costau gweinyddol. • Adran newyddion – newyddleni, bwletinâu. • Cyfryngau cymdeithasol, e.e. Twitter ac ati. • Gallu hybu ymgyrchoedd marchnata Llywodraeth Cymru, e.e. Recriwtio Athrawon, ymgyrch rhieni 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' ayyb. • Y gallu i gyhoeddi adroddiadau 'Crystal' i rhannu ac amlygu data perfformiad ar lefel rhanbarth, awdurdod ac ysgolion unigol yn ddiogel i ddefnyddwyr a gymeradwywyd. • Ysgolion yn gallu rhannu eu gwybodaeth a'u harferion da eu hunain efo GwE ac ysgolion eraill. Felly, annog a hybu cydweithio ysgol i ysgol mwy effeithiol ar draws y rhanbarth. Brandio GwE Mae angen datblygu logo GwE ymhellach i fod yn frand i gynnwys ffolderi ar gyfer cyrsiau hyfforddiant, astudiaethau achos i hyrwyddo arfer dda, pamffledi gweithgareddau hyfforddiant/cynadleddau, amrywiol dempledi ar gyfer newyddleni, taflenni gwybodaeth ac ati. Bwriedir comisiynu un cwmni i ddatblygu'r wefan a'r brandio, er mwyn sicrhau cysondeb. Bydd GwE yn gyfrifol am ddarparu'r cynnwys. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, cyfrifoldeb GwE fydd ychwanegu a golygu cynnwys. Datblygir y wefan yn raddol. Bydd hyn yn sicrhau bod presenoldeb ar y we cyn gynted â phosibl a bod adrannau a gweithrediadau ychwanegol yn cael eu datblygu wrth i'r gwasanaeth a'i strategaeth gyfathrebu ddatblygu ymhellach. Bwriedir ymgynghori â Grŵp Defnyddwyr GwE i sicrhau bod datblygiadau yn addas ac yn hwylus. Drwy ddatblygu'r uchod, sicrhair bod GwE yn gallu cyfathrebu'n effeithiol efo ysgolion yn y rhanbarth o ran y gefnogaeth sydd ar gael, rhannu gwybodaeth a darparu porth i'r ysgolion eu hunain rannu gwybodaeth a datblygu'r prosiect cydweithio ysgol i ysgol.	
COST (AMCAN)	
£	Fel % o'r tanwariant
£35,000	4%

Atodiad B:**MAES****Cefnogaeth Ysgol i Ysgol**

Datblygu cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion a'i weithredu ar draws Gogledd Cymru

RHESYMEG

Mae'r adroddiad diweddar, 'Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol', gan Robert Hill Consulting 2013 yn nodi manteision cydweithio rhwng ysgolion ac yn amlygu bod angen llwybr clir i ysgolion weithio gyda'i gilydd trwy gyfrwng partneriaethau ffurfiol.

'...mae diffyg difrifol o ran datblygu arweinwyr gweithredol ac arweinyddiaeth ar y cyd rhwng ysgolion'

Robert Hill Consulting 2013

Mae GwE wedi ymrwymo i ddatblygu'r hyn a adnabyddir yn fyd-eang fel 'system sy'n gwella o'r tu mewn'. Cydnabyddir mai trwy ddatblygu'r fath system y cawn y gwelliant mwyaf sylweddol a chynaliadwy yn ein hysgolion. Er mwyn sefydlu'r fath system, mae angen i bob partner yng Ngogledd Cymru chwarae ei ran yn llawn. Mae rhaid i arweinyddiaeth effeithiol ddod o'r tu mewn i ysgolion a rhaid i ysgolion gymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros eu gwelliant eu hunain. Mae'n hanfodol bod yr HOLL randdeiliaid wedi ymrwymo i sicrhau'r newid hwn.

Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn nodi bod angen gwella ar ansawdd arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu ac y bydd cefnogaeth ysgol i ysgol yn gymorth i wneud hyn. Mae'n bwysig nodi nad un dull yn unig o gydweithio a ddefnyddir. Bydd GwE yn ystyried gweithredu lleol effeithiol sydd eisoes ar waith, daearyddiaeth y rhanbarth a materion ieithyddol. Bydd barn broffesiynol a gwybodaeth leol Ymgynghorwyr Her GwE yn hanfodol.

Gweledigaeth:

- Datblygu system sy'n gwella o'r tu mewn
- Creu system ar gyfer gwelliant a yrrir gan ysgolion eu hunain gydag ysgolion yn cefnogi a herio ei gilydd yn naturiol
- Bydd Ymgynghorwyr Her GwE yn gweithredu fel hwyluswyr effeithiol, yn cynorthwyo a chynghori ar faterion gweithredu ac adnabod arfer orau/effeithiol i'w rhannu, neu fel y dywed yr Athro Mel Ainscow, *'moving knowledge around'*.
- Bydd GwE yn monitro/arfarnu cynnydd yn dymhorol er sicrhau atebolrwydd a chynnydd effeithiol o ran cydweithio rhwng ysgolion ar draws y Rhanbarth. Mae profiad blaenorol wedi amlygu pwysigrwydd yr agwedd hon er sicrhau ymrwymiad llawn yr holl randdeiliaid ac, o'r herwydd, sicrhau effaith effeithiol ar ddysgwyr. Cyfeiria McKinsey at bwysigrwydd y *'mediating layer'*. Mae hon yn Rôl Allweddol i Ymgynghorwyr Her.

Mae'n hanfodol bod GwE yn sefydlu'i hunan fel rhan allweddol yn y broses o ddatblygu cydweithio effeithiol rhwng ysgolion a'i weithredu ar draws Gogledd Cymru. Dylid edrych ar GwE fel y sbardun creiddiol a hwylusydd system sy'n gwella o'r tu mewn, mewn partneriaeth lawn a chliar ag Awdurdodau Lleol, ysgolion a gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn agwedd allweddol ar y gefnogaeth effeithiol y mae GwE yn ei darparu ar gyfer ysgolion.

Cynnig - Sector Cynradd:

Pob ysgol i gael un taliad er mwyn hybu prosiectau cydweithio rhwng ysgolion a'u hwyluso. Dyrannu'r taliad ar sail:

- £350 i bob ysgol
- £350 yn ychwanegol ar gyfer ysgolion rhwng 90 a 180 o ddisgyblion. Cyfanswm = £700
- £600 yn ychwanegol ar gyfer ysgolion 180+ disgybl. Cyfanswm = £950
- Cyfle i ysgolion gyflwyno cais am ragor o arian i hybu Prosiectau Cydweithio Rhwng Ysgolion Trawsffiniol effeithiol a'u hwyluso (hyd at £10,000 ar gyfer pob prosiect - uchafswm o bum prosiect gwahanol. £50,000 wedi'i neilltuo).

Bydd y sector Cynradd yn derbyn cyfanswm o £299,800.

Cynnig - Sector Uwchradd:

Pob ysgol i gael un taliad er mwyn hybu prosiectau cydweithio rhwng ysgolion a'u hwyluso. Dyrannu'r taliad ar sail:

- £1,000 i bob ysgol
- £1,000 yn ychwanegol ar gyfer ysgolion rhwng 500 a 800 o ddisgyblion.
Cyfanswm = £2,000
- £1,500 yn ychwanegol ar gyfer ysgolion rhwng 800 a 1,000 o ddisgyblion.
Cyfanswm = £2,500
- £2,500 yn ychwanegol ar gyfer ysgolion 1,000 + disgybl. Cyfanswm = £3,500

Bydd y sector Uwchradd yn derbyn cyfanswm o £115,500.

Yn ychwanegol, byddai £75,000 yn cael ei ddefnyddio i:

- ariannu cynhadledd arddangos yn ystod tymor yr haf (lleoliad, costau llanw, costau teithio, costau gweinyddol).
- cymorth ariannol ar gyfer gwaith hwyluso
- hwyluso gwariant annisgwyl o ganlyniad i anghenion prosiectau penodol

Amserlen ar gyfer gweithredu:

- Cyn diwedd mis Hydref 2014, UDRh GwE yn mynychu fforymau perthnasol ar gyfer Penaethiaid i egluro elfennau allweddol y rhaglen
- GwE yn rhyddhau'r cyllid perthnasol i'r chwe Awdurdod Lleol cyn diwedd mis Tachwedd 2014. Cyfrifoldeb yr ALI fydd rhannu dyraniad unigol pob ysgol.
- GwE i fonitro/arfarnu cynnydd yn dymhorol er sicrhau atebolrwydd a chynnydd effeithiol o ran cydweithio rhwng ysgolion ar draws y Rhanbarth.

COST (AMCAN)

£	Fel % o'r tanwariant
£490,300	63%

Atodiad C:

MAES	
Hyfforddiant Cenedlaethol i Ymgynghorwyr Her	
RHESYMEG	
Uwchsgilio holl Ymgynghorwyr Her GwE er sicrhau tîm gwybodus ac effeithiol sy'n meddu ar y sgiliau i ddarparu Her a Chefnogaeth mewn ysgolion, fel a gomisiynir gan yr Awdurdodau Lleol Bydd yr Hyfforddiant Cenedlaethol yn: - Sicrhau bod Arweinyddion System presennol GwE yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i drosglwyddo yn llwyddiannus i'w rôl fel Ymgynghorwyr Her - Sicrhau cysondeb yng ngwaith Ymgynghorwyr Her yn rhanbarthol ac yn genedlaethol - Cynorthwyo pontio llyfn i'r system gategoreiddio genedlaethol - Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Her o'r Safonau Cenedlaethol gydag uwchsgilio penodol yn y meysydd a ganlyn: - Cefnogi hunanarfarnu a gwelliant ysgol - Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol - Datblygu arweinyddiaeth ysgol - - Creu capasiti ysgol i ysgol a'i ddatblygu - Cyfoethogi strwythurau rheoli perfformiad rhanbarthol trwy gyfleoedd i hunanasesu ac asesu cyfoedion - Creu cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau a phartneriaethau gyda chydweithwyr o gonsortia rhanbarthol eraill - Creu cyfleoedd i rannu arfer dda rhwng y consortia rhanbarthol Mae'r costau yn cynnwys costau trafnidiaeth, cynhaliaeth a llety.	
COST (AMCAN)	
£	Fel % o'r tanwariant
£15,000	2%

Atodiad D:

MAES	
Cynhadledd Genedlaethol a drefnir ac a gynhelir gan GwE – i arddangos arferion da/rhagorol yn yr ystafell ddosbarth:	
⇒ <i>“Arbenigedd o’r tu mewn”</i> ⇒ <i>“Dysgu Cymru”</i> ⇒ <i>“Tuag at Ragoriaeth” / “Anelu at Ragoriaeth”</i>	
RHESYMEG	
• Cynhadledd i’w chynnal tuag at ddiwedd tymor y Gwanwyn rhywle yng Ngogledd Cymru. • Posibilrwydd i’r gynhadledd fod yn achlysur blynyddol – y 3 consortia i gynnal/trefnu. • Disgwyliad i bob ysgol yn GwE fynychu. • Gwahodd pob ysgol ledled Cymru. • Gwahodd ESTYN, Llywodraeth Cymru. • Pob consortia i fod yn gyfrifol am x4 gweithdy – pob consortiwm yn arddangos y consortiwm ar ei orau. • Pob gweithdy i fod yn “seiliedig ar y dosbarth” – Addysgeg/methodolegau addysgu / Medrau Meddwl / PISA / Llythrennedd a Rhifedd / manylbau Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth newydd. Braslun o’r rhaglen: • Cyflwyniad • Prif siaradwr • Sesiwn Gweithdy 1: dewis o 4 gweithdy • Sesiwn Gweithdy 2: dewis o 4 gweithdy • Sesiwn Gweithdy 3: dewis o 4 gweithdy • Sesiwn Gweithdy 4: dewis o 4 gweithdy , • Gwerthuso/cloi • Awgrym y byddai stondinau masnach o’r byd addysg yno. Byddai’r costau yn cynnwys: • Llogi lleoliad • Lluniaeth • Prif siaradwr • Rheoli’r gynhadledd	
COST (AMCAN)	
£	Fel % o’r tanwariant
£21,000	3%

Atodiad E:**MAES**

Creu canolfan ranbarthol ar gyfer GwE, adleoli 2 hwb (Conwy/Sir Ddinbych a Gwynedd/Môn) ac adnoddau ychwanegol.

RHESYMEG

Mae'r swyddfeydd presennol yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth yn unol â'r Achos Busnes Llawn a gynhyrchwyd ym mis Mawrth 2012 (cyn sefydlu'r gwasanaeth). Roedd y strwythur sefydliadol yn cynnwys 40 cyfwerth ag amser llawn, ac yn gweithredu ar sail hwb.

Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer swyddfeydd yn cynnwys:

- Hwb Gwynedd / Môn - wedi'i leoli yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon gyda lle ar gyfer 3 Swydddog Gweinyddol, 6 desg 'achlysurol', 2 ddesg barhaol (yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan Uwch Arweinydd System yr hwb a'r Rheolwr Busnes a Chyllid)
- Hwb Conwy / Sir Ddinbych - wedi'i leoli yn swyddfeydd Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Ffordd Dinerth, Llandrillo-yn-Rhos gyda lle i'r Rheolwr Gyfarwyddwr, Uwch Arweinydd System, Cyfieithydd/Rheolwr Busnes a Chyllid, 5 desg 'achlysurol' a 2 Swydddog Gweinyddol.
- Hwb Wrecsam/Sir y Fflint - wedi'i leoli yn Neuadd y Sir, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug gyda lle i 2 Swydddog Gweinyddol, Uwch Arweinydd System a 4 desg 'achlysurol'.

Mae'r sefyllfa bresennol yn darparu lle ar gyfer cyfanswm o 28 desg sy'n cynnwys:

- 13 desg ar gyfer staff sy'n gweithio mewn swyddfa ;
- 15 desg 'achlysurol'

Yn dilyn sefydlu GwE ac fel ymateb i anghenion y rhanbarth, bu newidiadau sylweddol yn y strwythur sefydliadol, gyda 8 swydd barhaol newydd yn ychwanegol, pob un ohonynt wedi'i lleoli yn ranbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pennaeth Cefnogaeth a Broceru
- Pennaeth Safonau
- Uwch Arweinydd System - Llythrennedd a Rhifedd
- Gweinyddwyr (x2)
- Trosglwyddo 3 aelod o staff o Swyddfa'r Consortiwm

Yn ogystal, mae nifer sylweddol o ychwanegiadau dros dro o ganlyniad i'r cyllid allanol/comisiynu amrywiol a ddyfarnwyd i GwE, sy'n cynnwys:

- 12 Partner Cynorthwyol
- 3 aelod o staff i'r PLPS (*Physical Literacy Programme for Schools*)
- 4 i Her Ysgolion Cymru a phrosiectau PISA/TGAU
- 19 Pennaeth wedi'u secondio i ymgymryd â rôl Ymgynghorwr Her a rhai penodol wedi'u comisiynu
- 1 Swydddog Data

Yn gryno, mae'r strwythur staff presennol yn cynnwys:

Staff parhaol	48
Secondiadau	39
Cyfanswm	87

Cydnabyddir nad yw pob aelod o staff angen desg benodol gan eu bod yn treulio amser sylweddol o'r swyddfa; fodd bynnag, mae'n amlwg o'r niferoedd a nodwyd uchod nad yw'r drefn bresennol bellach yn addas i'r diben (28 desg ar gyfer 83 aelod o staff).

Rhagwelir hefyd ei bod yn debygol y bydd nifer y swyddi dros dro/secondiadau yn cynyddu fel y byddwn yn symud tuag at y Model Cenedlaethol, gan ychwanegu at yr angen am hyblygrwydd yn y drefn bresennol; nid yw hyn yn bodoli ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol, nid yw'r drefn bresennol yn darparu:

- Ystafell gyfarfod a chyfleusterau hyfforddi - ar hyn o bryd, cynhelir pob cyfarfod mewn lleoliad allanol sy'n golygu cost. Yn ychwanegol i gostau llogi lleoliad, mae costau teithio a pharcio.
- Swyddfeydd ar gyfer yr ychwanegiadau parhaol i'r strwythur
- Swyddfeydd ar gyfer staff dros dro
- Lle storio - fel y bydd y cyllid allanol a chomisiynu a ddyfernir i GwE yn cynyddu, bydd angen lle storio ychwanegol ar gyfer cadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â gofynion archwiliad y cyrff sy'n ariannu.
- Canolfan ranbarthol/pencadlys ar gyfer GwE a lle i aelodau'r UDA i weithio o ganolfan ranbarthol - nodwyd hyn gan Lywodraeth Cymru fel diffyg yn y strwythur presennol. Mae hyn yn gofyn am sylw brys fel y bydd y capasiti ranbarthol yn cynyddu fel ymateb i ofynion y Model Cenedlaethol.
- Hyblygrwydd i gynyddu niferoedd staff

Aethpwyd i'r afael â'r awdurdodau lleol sy'n lletya hwb Conwy/Sir Ddinbych a Gwynedd/Môn gyda golwg ar ddarparu mwy o le ar gyfer swyddfeydd.

Yn anffodus, mae'r ddau awdurdod wedi cadarnhau nad oes lle ychwanegol ar gael yn y lleoliadau presennol ac, o'r herwydd, mae angen adleoli'r ddau hwb.

O ganlyniad, mae UDRh GwE yn archwilio gwahanol opsiynau ar hyn o bryd; mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau gyda'r ddau awdurdod yn ogystal ag archwilio opsiynau allanol.

Tra bo archwilio'r opsiynau ar gyfer adleoli yn mynd rhagddo, dyma'r prif ystyriaethau:

- Mae brys arwyddocaol am ofod ychwanegol i'r gwasanaeth; felly, mae argaeledd a gallu symud lleoliad yn gyflym yn flaenoriaeth.
- Mae lleoliad yr hybiau presennol yn gweithio'n effeithiol, felly nid oes angen newid y strwythur presennol.
- Mae angen i'r ganolfan ranbarthol/pencadlys fod yn agos i'r A55 er mwyn sicrhau hygyrchedd i ysgolion o ran derbyn cymorth - cyfarfodydd, cyrsiau hyfforddi ac ati.
- O ddewis, bydd hwb Gwynedd / Môn wedi'i leoli yn agos i swyddfeydd Cyngor Gwynedd, yr awdurdod lletyol h.y. ar gyfer prosesu anfonebau ac ati.
- Mae lle parcio yn holl bwysig ar gyfer cyfarfodydd.

Bydd costau sefydlu penodol ynghlwm wrth bob opsiwn, a fydd yn cynnwys:

- costau sefydlu TG (gan gynnwys cysylltu â'r rhwydwaith);
- aildrefnu swyddfeydd i fod yn addas i'r diben;
- dodrefn swyddfa;
- systemau ffôn;
- caledwedd TG;
- arwyddion.

Costau un-tro fydd y rhain a fydd yn sicrhau bod gan GwE y gallu i weithredu yn effeithlon ac yn effeithiol nawr ac yn y dyfodol.

Yn unol â'r Achos Busnes Llawn a gynhyrchwyd ym mis Mawrth 2012 (cyn sefydlu'r gwasanaeth) mae £49,600 wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer costau adeiladau.

Mae'r cynnydd yn arwynebedd llawr sy'n ofynnol er mwyn cartrefu'r gwasanaeth yn ei ffurf bresennol yn anochel yn cynyddu'r costau adeiladau. Amcangyfrifir bod hyn yn debygol o godi i £85,000, fodd bynnag mae costau cyfarfodydd yn debygol o leihau.

COST (AMCAN)	
£	Fel % o'r tanwariant
£80,000	10%